Noson Allan Night Out

# Sioeau gwych ar stepen eich drws



## A ydych yn grŵp cymunedol yng Nghymru a hoffai archebu sioe broffesiynol ar gyfer eich ardal?

Jamie Smith's MABON, Solfach (Llun: Pembrokeshire Photography)

> “Rwy'n caru Noson Allan. Byddai ein cymuned yn ddiflas hebddi.”
>
> Neuadd Goffa Trefdraeth, Sir Benfro

Mae Noson Allan yn helpu drwy ddiddymu'r perygl ariannol. Mae'r broses yn syml a hawdd a gallwn ddarparu cyllid a thocynnau, ynghyd â chymorth ymarferol a chyngor, yn ogystal â llawer o argymhellion ar amrywiaeth enfawr o sioeau ar gyfer pob oedran o theatr a cherddoriaeth i ddawns a phypedau.

## Y broses – yn syml:

- Cysylltwch â'r perfformiwr a cytuno ar ddyddiad.
- Ymgeisiwch i Noson Allan, trwy ein gwefan www.nosonallan.org.uk, o leiaf pedair wythnos cyn y digwyddiad – neu'n gynt os yn bosib.
- Noson Allan fydd yn talu ffi'r perfformiwr, cewch y sioe am ffi gostyngol ac mae modd gofyn i'ch awdurdod lleol warantu'r gost. Felly ni fyddwch ar eich colled.
- Cynhaliwch y digwyddiad, rhowch bosteri i fyny a hyrwyddwch y sioe yn eich cymuned, a mwynhewch. Adroddwch yn ôl inni wedyn gan dalu'n ôl inni incwm y tocynnau a wnaethoch (hyd at fwyafswm o ffi'r perfformiwr).

## Cysylltu â ni

Ffôn: 029 2044 1340
Gwefan: www.nosonallan.org.uk
Ebost: ymholiadau@nosonallan.org.uk

Ers 1980 mae Noson Allan wedi gweithio gyda channoedd o leoliadau cymunedol yn eu galluogi i hyrwyddo dros 14,000 o berfformiadau ledled Cymru.

Mae Noson Allan yn rhan o Gyngor Celfyddydau Cymru sy'n gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol i gefnogi perfformiadau proffesiynol o safon, mewn ardaloedd sydd heb fawr o fynediad i'r celfyddydau.

Mae'n cynorthwyo a chynghori cwmnïau a pherfformwyr, yn sicrhau eu bod yn cael ffi teg. Mae hefyd yn annog datblygiad cymunedol a sbarduno'r economi leol.



Umduno Wesizwe, Cwmaman
(Image: Betina Skovbro)

> “Roedd y perfformiad hwn yn fodd i ddod â'r gymuned at ei gilydd, bu'r plant yn chwarae ac roeddent yn dwlu ar y sioe a theimlai pawb yn falch o gynnal digwyddiad mor hyfryd. Rydym yn lled ynysig yma ac nid oes fawr o berfformiadau byw yn lleol felly mae'n wych cael rhywbeth mor agos.”
>
> Grŵp Rhieni a Phlant Bach Llanbedr Castell-paen a Rhos-goch

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government